

1.3 Statws yng Ngwynedd^e

Mae arfordir Gwynedd (y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri) dros 200km o hyd ac yn ymestyn o Abergwyngregyn ar arfordir y gogledd, o gwmpas Penrhyn Llŷn, yna i'r dwyrain i Borthmadog, ac mae hefyd yn cynnwys rhannau byrion o arfordir yn ardaloedd Y Bermo a Thywyn, ardaloedd sydd oddi allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'r cyfeiriad y mae'r arfordir yn ei wynebu yn sylfaenol o safbwynt y math o falurion a ddaw i'r lan gyda'r llanw ar unrhyw draeth. Yng Ngwynedd, o'r de - orllewin y daw'r gwynt yn bennaf, felly mae'r traethau hynny sydd ar hyd arfordir deheuol a gorllewinol yr ardal yn cael casgliadau swmpus o wyon ac ysbwriel cyffredinol. Mae Gwynedd yn un o ardaloedd allweddol Cymru o safbwynt cynefinoedd twyni tywod a morfeydd heli, ac oherwydd bod gan yr ardal arfordir eang mae'r sir yn debygol o gynnwys nifer fawr o gynefinoedd traethlin.

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFINOEDD HYN YNG NGWYNEDD

- Pwysau ar awdurdodau lleol i lanhau traethau ymdrochi, yn aml er mwyn cwrdd â gofynion gwobrau traethau glân, er budd yr economi leol. Gall defnyddio peiriannau i lanhau traethau fod yn drychinebus i ecoleg traethlinau. Mae glanhawyr mecanyddol yn clirio'r sbwriel ond maent hefyd yn clirio ac yn dinistrio cymunedau naturiol ymyl traeth.
- Cerbydau Modur. Mae gyrru ar draws traethlinau yn sicr o ddinistrio planhigion sy'n coloneiddio ac hefyd o ddinistrio ffurfiant twyni newydd e.e. ar draeth y Greigddu, Morfa Bychan.
- Llygriad morol, gan gynnwys olew a sbwriel.
- Aflonyddiad gan bobl (e.e. sathru) ar y traethau sydd fwyaf poblogaidd gyda thwristiaid e.e. Morfa Bychan; gall hefyd effeithio ar ddatblygiad ffawna diagsgrncefn prin a niweidio'r llystyfiant.
- Clirio gormodol ar froc môr, gan gynnwys malurion coed naturiol a darnau o bren sydd ynghlwm wrth froc môr. Os caiff ei adael, gall pren fod yn gynefin pwysig i greaduriaid fel y chwilen liwgar *Trichius fasciatus* a'r gwyfyn sy'n brin iawn yn y wlad hon sef y *Pselactus spadix*.
- Casglu gwyon ar gyfer garddwriaeth.
- Gwasgu ar yr arfordir a cholli cyflenwad o waddod, gall hyn ddod yn sgil gwella amddiffynfeydd morol ac mae'n debygol o ddinistrio cynefinoedd ymyl traeth.
- Newidiadau yn yr hinsawdd (tymor hir) a phatrymau tywydd (tymor byr), yn arwain at gynydd mewn stormydd a moroedd tymhestlog.

3. CGR /CCG PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Gwastadeddau lleidiog, Twyni tywod arfordirol, Morfa heli arfordirol

Llinos y mynydd, pry copyn daear (*Haplodrassus minor*).

^e Yn y ddogfen hon mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i ardal Parc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir yn wahanol.

GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Dynodwyd aml ran o arfordir Gwynedd yn ACA (Pen Llyn a'r Sarnau; Glannau Menai a Bae Conwy) a / neu AGA (Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli; Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd St Tudwal; Traeth Lafan).
- Mae traethlinau i'w canfod o fewn GNLI Morfa Madryn, Morfa Aber a'r Foryd ar arfordir gogleddol Gwynedd
- Mae ardaloedd traethlinau wedi eu cynnwys o fewn aml i SoDdGa (Dyfi; Porth Ceiriad, Porth Neigwl ac Ynysoedd St Tudwal) ac hefyd o fewn ardaloedd a glustnodwyd fel darpar Safleoedd Bywyd Gwyllt
- Mae Dyfi ac Ynys Enlli yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol.
- Mae mwyafrif arfordir Pen Llŷn wedi ei ddynodi yn Arfordir Treftadaeth ac mae rhan helaeth o Benrhyn Llŷn wedi ei gynnwys o fewn AHNE Llŷn.

4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Nid yw Cyngor Gwynedd yn clirio unrhyw ran o draethlin oni bai ei fod yn peryglu iechyd y cyhoedd, a hynny ar draethau ymdrochi yn unig. Ers 1996 yr unig traethlin sydd wedi ei glirio yw'r un ar draeth Morfa Bychan, ac mae'r gwaith wedi ei gwblhau yno ar saith achlysur.
- Caiff GNLI arfordirol, sydd yn aml yn cynnwys cynefinoedd ymyl traeth, eu rheoli a'u diogelu gan wardeniaid Cyngor Gwynedd.
- Mae DEFRA wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer cynhyrchu ail gyfres o Gynlluniau Rheoli Ymyl Traeth fydd yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer diogelu bioamrywiaeth yn ogystal â chyfleoedd i wella bioamrywiaeth.
- Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gytundebau rheolaeth ar bob SoDdGA er mwyn sicrhau rheolaeth addas ar gynefinoedd gan gynnwys twyni tywod, morfeydd heli a graean, ac mae hyn yn debygol o fod o fudd i draethlinau hefyd.
- Mae dau gynllun drafft ar reoli'r traethlin wedi eu llunio ar gyfer Gwynedd - un wedi ei baratoi gan Grŵp Arfordir Ynys Enlli i Landudno a'r llall gan Grŵp Arfordir Bae Ceredigion.
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cyhoeddi llyfryn yn codi ymwybyddiaeth am werth traethlinau ac am ofynion cadwraeth.

4.3 Arolygon, ymchwil monitro

- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cynnal arolwg rhynglanwol ar holl arfordir Cymru ac mae'r arolwg yn cynnwys dosbarthiad cynefinoedd ymyl traeth.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Atal unrhyw leihâd yn y mesur o gynefin y traethlin sydd yn bodoli'n naturiol yng Ngwynedd, ac sy'n agored i ddylanwadau naturiol
2. Atal unrhyw ddirywiad yn ansawdd presennol y cynefinoedd traethlin yng Ngwynedd sy'n agored i ddylanwadau naturiol
3. Cydweithio'n strategol gydag eraill sydd ag amcanion cyffelyb.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) ^f
Polisi a Deddfwriaeth		
1	Trwy'r broses cynllunio, sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn cydfynd â chadwraeth ymylon traethau. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
2	Glynu at bolisi Cyngor Gwynedd na chaiff y traethlin ei glirio ar draethau cyhoeddus oni bai ei fod yn fygythiad i ddiogelwch y cyhoedd. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
3	Ymgorffori polisiâu yn y CDU a strategaethau eraill sydd gan yr awdurdod er mwyn diogelu'r cynefin ymyl traeth yng Ngwynedd TARGED/AMSERLEN: I'w osod	CG, Partneriaid perthnasol
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
4	Cynnwys a gweithredu gofynion cadwraeth ar gyfer traethlinau ym mhob cynllun rheoli safle perthnasol TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, AAC, CG
5	Sicrhau bod gofynion cadwraeth traethlinau wedi eu cynnwys yn y cynlluniau rheoli traethlinau perthnasol (gan Grŵp Arfordir Bae Ceredigion, Grŵp Arfordir Ynys Enlli i Landudno), a hyrwyddo cynlluniau fydd yn caniatáu i brosesau gwaddodi naturiol ddatblygu ar yr arfordir. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Arfordir, CCGC, AAC, YBGGC, CFGA Cymru
6	Sicrhau y caiff arferion glanhau traethau sensitif eu hyrwyddo/cynnal ar y traethau a chaniatau i traethlinau eu hadfer eu hunain yn naturiol mewn ardaloedd lle collwyd y cynefinoedd. TARGED/AMSERLEN: Cynnydd o 5% ym maint yr ymylon traethau erbyn 2010	CG, Partneriaid perthnasol.
7	Osgoi niweidio cymunedau naturiol y traethlin yn ystod cyfnodau glanhau. Mewn achos o golli olew, cynnwys canllawiau ar ddiogelu traethlinau yng nghynlluniau argyfwng Gwynedd ar gyfer llygriad olew ac yn Nata Traethau a Chanllawiau Glanhau Grŵp Ymgynghorol Llygriad Olew. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2007	AAC, CG, CCGC
Cynghori		
8	Darparu cyngor ar reolaeth addas ar draethlinau ar gyfer swyddogion Cyngor Gwynedd pan fyddant yn cwblhau'r gwaith o glirio traethau. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
Arolygu, ymchwilio a monitro		
9	Gyda chymorth grwpiau o'r brifysgol a grwpiau gwirfoddol, monitro datblygiad traethlinau o safbwynt nifer a gwerth ecolegol ar safleoedd dethol o fewn Cyngor Gwynedd. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2010	CG, PCB, Buglife, Partneriaid perthnasol
10	Annog arolygon o rywogaethau perthnasol a ganfyddir ar traethlinau ac ymchwilio i ofynion o safbwynt rheoli rhywogaethau allweddol. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2010	Buglife, CG, CCGC
Cyfathrebu a rhoi cyhoeddusrwydd		
11	Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ecolegol traethlinau ymhlith grwpiau cymunedol trwy weithgareddau glanhau traethau, a dosbarthu'r Cód Traethlin mewn manau cyhoeddus e.e. meysydd parcio, safleoedd carafanau. TARGED/AMSERLEN: I'w gosod.	CGD, CG
12	Codi ymwybyddiaeth o werth traethlinau trwy ddsbarthu copiau o lyfryn Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar traethlinau ymhlith sefydliadau allweddol ac ar draethau allweddol. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CG, YBGGC, CFGA

^f Dangosir y prif bartner ar gyfer y weithgaredd hon mewn print tywyll, gweler adran 7.2 am eglurhâd o'r byrfoddau

